

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion Cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G. Ball, S. Campbell, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby, M.J.G. Morgan a H.M. Payne.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid), Cynghorwyr, A. Asbrey, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid), N.C. Thomas, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

855 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

856 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y D. Dutch (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid).

857 DATGANIADAU BUDDIANT –

Derbyniwyd y datganiadau o ddiddordeb a ganlyn.

Datganodd y Cynghorydd J. Aviet fuddiant yn eitem 7 ar yr agenda - Cynlluniau Gwasanaeth a Thargedau Perfformiad i Gyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2024/2025. Natur ei buddiant oedd ei bod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg, gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at wasanaethau tenantiaid. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd W.A. Hennessy fuddiant yn eitem 7 ar yr agenda - Cynlluniau Gwasanaeth a Thargedau Perfformiad i Gyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2024/2025. Natur ei fuddiant oedd ei fod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg, gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at wasanaethau tenantiaid. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd W.A. Hennessy fuddiant yn eitem 9 (i) ar yr agenda - Diweddariad 2024 i Gynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai 2022-2025. Natur ei fuddiant oedd ei fod yn derbyn gwasanaeth teleofal gan y Cyngor (roedd yr adroddiad dan sylw'n cyfeirio at wasanaethau teleofal). Roedd ganddo'r hawl i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyngor ar faterion cyffredinol, ond i siarad dim ond os oedd y mater yn rhagfarnus, ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau teleofal (paragraffau (d) ac (f) o'r rheoliadau perthnasol).

Datganodd y Cynghorydd H.M. Payne fuddiant yn eitem 9 (i) ar yr agenda - Diweddariad 2024 i Gynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai 2022-2025. Natur ei buddiant oedd y cyfeiriad at Llamau yn yr adroddiad, sef ei chyflogwr. Roedd ganddi'r hawl i siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg wrth drafod materion yn ymwneud â thai a digartrefedd mewn perthynas â chyllid ac eiddo yn unig o ystyried rôl y Cynghorydd gyda Llamau (paragraffau (c), (d), (f) a (h) o'r rheoliadau perthnasol).

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby fuddiant yn eitem 9 (i) ar yr agenda - Diweddariad 2024 i Gynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai 2022-2025. Roedd natur ei buddiant yn bersonol ac nid yn rhagfarnus, oherwydd bod aelodau'r teulu yn derbyn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Teleofal, y cyfeirir atynt yn yr adroddiad dan sylw. Roedd ganddi'r hawl i siarad ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau teleofal a Gofal Pecyn yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg (paragraffau (d) ac (f) o'r rheoliadau perthnasol).

858 DIWEDDARIAD GAN YR UNED AMDDIFFYN SIFIL (UAS) –

Rhodddwyd y cyflwyniad i'r Pwyllgor gan y Prif Swyddog Diogelu Sifil a amlinellodd y pwyntiau allweddol ynghylch cefndir yr Uned Diogelu Sifil (UDS), ei staff, ei strwythur a'i gweithgareddau.

Dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (DASP) 2004, roedd gan Gyngor Bro Morgannwg gyfrifoldeb statudol fel ymatebydd categori 1 gydag asiantaethau eraill fel y gwasanaethau brys, byrddau iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), i sicrhau bod y dyletswyddau dan y DASP yn cael eu cyflawni.

Amlinellodd y Prif Swyddog Diogelu Sifil ddiweddariadau amrywiol yn ymwneud â'r canlynol:

- Yr Ymchwiliad i COVID-19, roedd yr UDS a'r Cyngor ehangach yn darparu eu cyfraniadau i'r Ymchwiliad i COVID-19, gan nodi'r gwaith cadarnhaol a wnaed gan yr UDS a'r Cyngor yn ystod y Pandemig.
- Grŵp Diogelwch Adeiladau er mwyn cryfhau diogelwch adeiladau a chyfleusterau'r Cyngor, gan gynnwys pasiau adnabod a pholisïau mynd i mewn i adeiladau a gadael adeiladau.
- Cyfraith Martyn, ynglŷn â mwy o ddiogelwch amddiffynnol mewn digwyddiadau ac adeiladau / lleoliadau gorlawn (yn dilyn y gwersi a ddysgwyd o'r ymosodiad bom yn Arena Manceinion).
- Partneriaeth a Chydweithio, h.y. drwy Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y De.

- Roedd yr UDS wedi cynnal Adolygiad Fframwaith Cynllun Argyfwng.
- Roedd diweddariadau ar y gwahanol ddigwyddiadau yr oedd yr UDS yn rhan ohonynt hefyd wedi'u nodi gan gynnwys digwyddiad prif gyflenwad dŵr yng Ngwenfô a chwch OHANNA wedi'i adael ar draeth Llanilltud Fawr ac o ran digwyddiadau llifogydd lleol, nad oeddent, hyd yma, wedi'u gweld ar raddfa fawr yn y Fro.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd nifer o sylwadau a chwestiynau dilynol eu gwneud yn y cyfarfod:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hanks at y cwch a oedd wedi'i adael ar draeth Llanilltud Fawr a dywedodd ei fod wedi bod yno ers cryn amser cyn iddo gael ei dorri'n ddarnau. Gofynnodd beth oedd wedi digwydd a phwy oedd yn gyfrifol am ddelio â hyn. Esboniwyd mai Ystâd y Goron oedd yn berchen ar y traeth, nid Cyngor Bro Morgannwg, ac felly roedd haen ychwanegol o gymhlethdod er mwyn datrys y mater. Roedd yn gofyn am gyfraniad y Gwasanaeth Gwylwyr y Glannau lleol er mwyn llusgo'r cwch i mewn i'w atal rhag torri i fyny neu ddrifftio i ffwrdd yn y dŵr. Wedi hynny, roedd Ystâd y Goron wedi'i dorri i fyny gyda chymorth Bro Morgannwg ac roedd y Gwasanaeth Gwylwyr y Glannau wedi cynnig cymorth i gadw pobl i ffwrdd o'r llongddrylliad.
- Gofynnodd y Cynghorydd Lloyd-Selby sut y gallai aelodau'r cyhoedd neu Aelod Etholedig adrodd neu rybuddio'r UDS am ddigwyddiadau fel y rhai a godwyd yn y cyflwyniad. Mewn ymateb, esboniwyd bod yr UDS fel arfer yn cael gwybod am ddigwyddiad mawr drwy'r gwasanaethau brys fel yr heddlu a'r gwasanaethau tân, ond gallai'r cyhoedd gysylltu â hi hefyd drwy Ganolfan Gyswilt Un Fro a thrwy ffurflen ar-lein. Byddai rhybuddion o'r fath yn cael eu codi gan swyddog o'r UDS a oedd ar alwad 24/7 gyda hyn yn seiliedig ar system rota. Pe bai'n ddigwyddiad nad oedd yn argyfwng, yna gallai Aelodau Etholedig hefyd gysylltu â'r UDS yn uniongyrchol drwy'r swyddog perthnasol.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyflwyniad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Nodi'r cyflwyniad o ran y Diweddariad ar yr Uned Diogelu Sifil (UDS).

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

859 GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID A CHYMORTH CYNNAR: CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID WEDI'I GWBLHAU YM MIS GORFFENNAF 2023 (CGC) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2023-2024 y Gwasanaeth Cymorth Cynnar a Chyfiawnder Ieuenctid (GCCChI), ac i roi trosolwg effeithiol ohono iddynt. Cyflwynwyd hyn gan Reolwr y GCCChI.

Amlygodd yr adroddiad sut roedd y GCCChI, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) gynt, a ddynodwyd yn wasanaeth cyhoeddus allweddol, yn bwriadu darparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn. Cyfeiriodd Rheolwr y GCCChI hefyd at y broses i'w chynnal ar gyfer iteriad nesaf y Cynllun ar gyfer 2024-2025.

Nododd Rheolwr y GCCChI gefndir y GCCChI, cyfansoddiad ei aelodaeth a'i strwythur, ei bwrpas craidd (i sicrhau bod gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid perthnasol ar gael ar draws ardal yr awdurdod lleol), y dyletswyddau deddfwriaethol a statudol a roddwyd ar y GCCChI wrth lunio'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid blynyddol, ei drefniadau cyllido, yn ogystal â newidiadau sylweddol i'r canllawiau a'r gofynion ar sut y dylid drafftio'r Cynllun a'i gyflwyno ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI). Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y data a'r wybodaeth yn y cynllun yn cael eu defnyddio gan y BCI fel "ffynhonnell wybodaeth i roi cymorth i'r sector trwy ei swyddogaeth oruchwylio. Mae dadansoddiad o'r wybodaeth yn nodi perfformiad da a gall roi ffocws ar themâu rhanbarthol a chenedlaethol".

Amlinellwyd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2023-2024 y GCCChI (Atodiad 1 yr adroddiad), dan yr amrywiol benawdau rhagnodedig yn amrywio o Gyflwyno, Gweledigaeth a Strategaeth drwedd i'r Cyd-destun Lleol, y Plentyn yn Gyntaf a Llais y Plentyn ac yn olaf Heriau, Risgiau, Materion ac Edrych i'r Dyfodol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn erbyn y camau gweithredu ers cynllun 2022 – 2023, a oedd yn canolbwyntio ar y Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg yn dilyn Arolygiad Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn 2022. Roedd argymhellion yr arolygiad yn ymdrin â meysydd allweddol a oedd yn parhau'n themâu pwysig i'r gwasanaeth ac a oedd bellach yn ofynion yn y canllawiau cynllunio. Roedd llawer o'r argymhellion wedi'u cwblhau, ac roedd rhai wedi'u hymgorffori yng ngweithrediadau'r GCCChI, er mwyn cael eu symud ymlaen. Er enghraifft, mewn meysydd fel anghymesuredd a chyfranogiad ac ymgysylltiad, yn ogystal â gweithredu'r camau priodol a monitro effeithiolrwydd y GCCChI yn y meysydd hyn. Un maes, wrth symud ymlaen, y byddai angen ei ymgorffori mewn cynllunio yn y dyfodol oedd diogelu cyd-destunol.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol eu gwneud yn y cyfarfod:

- Gofynnodd y Cynghorydd Hanks beth oedd yr ystod oedran ar gyfer y plant a oedd yn cael sylw yn yr adroddiad hwn, h.y. 18 oed ac iau. Cadarnhawyd bod yr ystodau oedran yn 18 oed ac iau yn gyffredinol. Fodd bynnag, gweithredodd y GCCChI broses bontio fwy hyblyg mewn perthynas â phlant yn seiliedig ar eu hanghenion unigol, h.y. os oedd angen i blentyn neu berson ifanc bontio i wasanaethau oedolion fel y Gwasanaeth Prawf. Byddai penderfyniad yn cael ei wneud yn seiliedig ar ganllawiau'r BCI ar anghenion y plentyn / person ifanc hwnnw, gan gynnwys ystyriaethau datblygiadol ac anghenion dysgu ychwanegol, a allai effeithio ar allu'r plentyn neu'r person ifanc hwnnw i weithredu fel oedolyn. Golygodd hyn y gallai cymorth barhau y tu hwnt i'r terfynau oedran cronolegol arferol h.y. hyd at a chan gynnwys 19 oed, os bernir bod hyn yn briodol.
- Gofynnodd y Cynghorydd Lloyd-Selby am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r Cynllun a'r adroddiad, a phryd y byddai iteriad 2024-2025 yn barod, yn ogystal â phwy oedd cynulleidfa fwriadedig y Cynllun a sut y cafodd ei rannu gyda

phobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau ei fod yn hawdd iddynt ei ddeall. Esboniwyd bod yn rhaid cwblhau'r Cynllun yn unol â'r paramedrau sefydledig ar gyfer y BCI er mwyn sicrhau cyllid. Cyflwynwyd y Cynllun, ar ôl iddo gael ei gwblhau, i'r BCI a byddai'n cael ei gyhoeddi ar ôl i'r holl Awdurdodau Lleol perthnasol gyflwyno eu cynlluniau. Roedd y GCCChI yn aml yn rhedeg ar ei hôl hi o ran cyllid, gyda'r gyllideb yn rhedeg yn swyddogol o fis Ebrill, ond gyda chadarnhad gwirioneddol y gyllideb heb ei dderbyn tan fis Mehefin. Hefyd, roedd capasiti ac absenoldeb salwch o fewn y GCCChI wedi effeithio ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cynllun. Fodd bynnag, roedd gwaith o fewn y maes hwn yn parhau, gyda data'n cael ei fonitro a dangosyddion perfformiad yn cael eu hadrodd yn rheolaidd. Roedd y Cynllun yn hygyrch i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy gael eu hadborth a sicrhau ei fod yn cael ei rannu mewn fformat mor hygyrch â phosibl, h.y. ffeithluniau. Byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i gynyddu ei hygyrchedd wrth symud ymlaen hefyd.

- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y posibilrwydd o wneud data lefel ward yn hygyrch i Aelodau Etholedig, effaith anghymesuredd o fewn y system Cyfiawnder Ieuencid a'r hyn a oedd yn cael ei wneud ym Mro Morgannwg i ehangu amrywiaeth y staff a oedd yn gweithio o fewn y system Cyfiawnder Ieuencid er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, ac at y rhaglen Grŵp Merched a'r posibilrwydd o'i hymestyn nid i fechgyn ifanc yn unig, ond yn benodol i fechgyn o gyd-destun du ac ethnig leiafrifol. Ar y pwyntiau olaf, roedd llawer o waith wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys effaith y cyfryngau cymdeithasol o ran gwaethygu gwrthdaro, fel rhan o'r rhaglen dan sylw. Oherwydd cymhlethdod hyn, mabwysiadwyd dull gweithredu amlasiantaethol, ar lefel grŵp, is-grŵp ac unigol. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gymhwyso'r dull hwn o ran bechgyn ifanc, gyda rhai sesiynau grŵp eisoes wedi'u cynnal. Byddai'r GCCChI yn parhau i ddadansoddi data aildroeddu ar gyfer merched ifanc, a oedd yn dangos lefelau uchel o gamdriniaeth, trawma ac anghenion ychwanegol fel ffactorau. Roedd gwaith ataliol yn cael ei wneud mewn meysydd fel ysgolion. Roedd anghymesuredd yn fater cenedlaethol, ac effeithiodd hyn ar blant mewn perygl o droeddu ac a oedd wedi troseddu, ac a oedd yn cynnwys ffactorau ethnig a ffactorau eraill yn ymwneud â chefnidir plentyn. Ar gyfer anghymesuredd ethnig, roedd yn bwysig canolbwyntio ar gymorth ac atal cynnar er mwyn targedu gwahaniaethu, ac ati a allai effeithio ar ymddygiad, trwy well monitro, casglu data, dadansoddi a chynllunio gweithredu er mwyn targedu cymorth a gwella canlyniadau i blant o fewn y System Cyfiawnder Troseddol neu a ddargyfeirir oddi yno. Byddai hyn yn gofyn am ddull mwy unigol, yn hytrach na dull grŵp, o weithio gyda phlant. Byddai gwybodaeth am ddata lefel ward yn cael ei hystyried a'i rhannu gyda'r Pwyllgor.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Nodi Cynllun Cyfiawnder Ieuencid y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a Chymorth Cynnar 2023-2024.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

860 MONITRO REFENIW CHWARTER 3 2023/24 (CAT) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa Monitro Refeniw Chwarter 3 ar gyfer 2023/24. Cyflwynwyd hyn gan y Rheolwr Cymorth Cyllid, a amlygodd y canlynol:

- Darn cadarnhaol o newyddion oedd nad oedd unrhyw drosglwyddiadau cyllidebol a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor yn yr adroddiad.
- Fodd bynnag, parhaodd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2023/24 i adlewyrchu galw heriol a phwysau chwyddiant yn ogystal â'r argyfwng costau byw, cymorth i ffoaduriaid Wcráin a chynlluniau ailsefydlu eraill.
- I gydnabod dirywiad y sefyllfa monitro refeniw yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ragamcanion blwyddyn lawn Chwarter 2 a'r angen i nodi arbedion yn ystod y flwyddyn, diogelu cronfeydd wrth gefn ar gyfer anwadalrwydd yn y dyfodol a gwneud y gorau o gywirdeb y rhagamcanion cymerwyd nifer o gamau gan yr Uwch Dîm Arwain a rheolwyr ar draws y Cyngor yn ystod y misoedd diwethaf. Er enghraifft, rheolaethau tynnach ynghylch gwariant a recriwtio nad ydynt yn hanfodol, adolygu gwariant cyfalaf, adolygu'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a chyflwyno targedau arbedion i 2023/24.
- Roedd y pwysau allweddol a oedd yn wynebu gwasanaethau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys:
 - Llety i fodloni anghenion pobl ddigartref a theuluoedd sydd wedi'u hailgartrefu yn y Fro ar hyn o bryd.
 - Cost rhoi cymorth i gynorthwyo teuluoedd o Wcráin sy'n symud i safle ysgol Eagleswell.
 - Diffyg incwm ffioedd ar gyfer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCAau).
 - Defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer Tai Preifat, oherwydd incwm ffioedd a gorwariannau.
- Roedd yr adroddiad hefyd yn rhestru targedau arbedion yn ymwneud â'r pwyllgor hwn ac nad oedd Tai Preifat yn gallu bwrw eu targed o £20,000 ond roedd disgwyl i bob un arall gael ei fwrw o fewn y flwyddyn.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol eu gwneud yn y cyfarfod:

- Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy a oedd y datblygiad ar safle ysgol Eagleswell yn dal i fod o fewn y gyllideb, a phryd y byddai hyn yn barod. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai fod y gyllideb yn unol â'r amcangyfrifon gwreiddiol ac ar y trywydd iawn; ond, o ran meddiannaeth roedd y cynllun ar ei hôl hi, yn rhannol oherwydd trefniadau cludo ar gyfer yr unedau tai, y bu'n rhaid i'r heddlu lleol eu hwyluso. Roedd disgwyl i feddiannaeth fod yn bosibl ddiwedd mis Ebrill / dechrau mis Mai 2024.
- Ar gais dilynol y Cynghorydd i'r Pwyllgor ymweld â'r safle ar ôl ei gwblhau, cytunwyd i drefnu hyn maes o law.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2023/24 yr Awdurdod.
- (2) Nodi Trosglwyddiadau'r Gyllideb ar gyfer 2023/24 a gyflwynwyd yn yr adroddiad.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1a2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

861 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1AF EBRILL I 31AIN RHAGFYR 2023 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Cyllid, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2023/24 am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2023 o fewn ei gylch gwaith. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad. Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynodedb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf yn ôl Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 i 31 Rhagfyr 2023, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad. Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2023/24 a rhai'r blynyddoedd i ddod.

Nododd yr adroddiad y rhaglen gymeradwy bresennol o £103.677m, ond roedd yn bwysig nodi nad oedd hyn yn debygol o gael ei gyflawni a gofynnwyd am lithriad o £7.692m gydag alldro a ragwelir o £96.763m.

Roedd yr eitemau perthnasol ar gyfer y Pwyllgor o fewn y Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys:

- Cais i ddileu cyllideb cynllun Ardal Adnewyddu Penarth o £5k. Byddai unrhyw waith pellach ar y prosiect, nad oedd wedi'i nodi eto, yn gofyn am gyllid ychwanegol, a fyddai'n gofyn am gais cyfalaf yn y dyfodol pan oedd y manylion yn hysbys.
- Grant Cartrefi Gwag. Roedd y cynllun hwn ar Raglen Gyfalaf 2023/24 gyda chyllideb o £931k. Gan fod y grant yn cael ei weinyddu a'i dalu gan Awdurdod Lleol arall, gofynnwyd iddo leihau'r cynllun gan swm y grant o £846k. Yn dilyn cadarnhad mai dim ond nifer fach o grantiau a oedd wedi'u dyrannu i drigolion y flwyddyn ariannol hon, rhagwelwyd hefyd mai dim ond £10k o arian cyfatebol yr oedd ei angen. Gwnaethpwyd cais i gario ymlaen £75k o'r gyllideb eleni i Raglen Gyfalaf 2024/25 a chadw cyllideb o £10k yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24.
- Roedd un Awdurdod Dirprwyedig wedi'i gymeradwyo o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a ailbroffiliodd Raglen Gwella Tai 2023/24 i 2028/29. Cynhaliwyd yr ailbroffilio i sicrhau bod y Rhaglen Gyfalaf yn cyd-fynd â'r Cynllun Busnes Tai.
- Y cais i drosglwyddo £30k o'r gyllideb Cynlluniau Unigol i gyllideb cynllun 7 St Paul's Avenue.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol eu gwneud yn y cyfarfod:

- Gofynnodd y Cynghorydd Lloyd-Selby am yr amserlenni ar gyfer agoriad cynllun St. Paul's Avenue. Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai gan ddweud bod y cynllun wedi'i gwblhau ond ei fod yn aros i ddodrefn gael eu gosod. Roedd y cynllun hwn yn wasanaeth contract, a gynhaliwyd gan Lamau i roi cymorth i bobl ifanc wedi'u lleoli yn y lleoliad hwn a byddai'n dechrau'n fuan. O ran y sefyllfa gyllido, gallai fod yn bosibl tynnu rhywfaint o gyllid cyfalaf ychwanegol i lawr, ond roedd y cynigion hynny'n cael eu hystyried ar hyn o bryd fel rhan o'r trafodaethau ar lithriad yr oedd y Cyngor yn eu cael gydag lechyd a phartneriaid eraill.
- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at Ganolfan Ailgylchu a Gwastraff y Cartref Llandŵ a gofynnodd am y wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd. Esboniwyd y byddai adroddiad ar hyn yn mynd i'r Cabinet ar 21 Mawrth. Cadarnhawyd hyn hefyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraff 2.5 ac a nodir yn yr adroddiad ym mharagraff 2.61.
- (3) Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (4) Nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2023/24 a Rhaglen Gyfalaf blynyddoedd i ddod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraff 2.3 a 2.4 ac y manylir arnynt yng nghorff yr adroddiad ym mharagraff 2.22, 2.27 a 2.55.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1-4)Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

862 CYNLLUNIAU GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2024/2025 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai, ar y cyd â Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Tai Cyhoeddus, Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Rheolwr Gweithredol Adfywio, a roddodd ddiweddariadau ar eu gwasanaethau priodol a'u camau gweithredu / targedau a osodwyd. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Cyflwynodd yr adroddiad y gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig (fel yr amlinellir mewn Cynlluniau Gwasanaeth) a'r targedau perfformiad cysylltiedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu. Dyma oedd meysydd ffocws penodol y Pwyllgor a oedd yn gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/2025 fel sy'n cyd-fynd â phedwar Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol (a atodwyd yn Atodiadau A a B yr adroddiad).
- Byddai datblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn helpu i gyflawni rhwymedigaethau a dyletswyddau statudol, gyda pherthnasedd yr Amcanion Lles yn cael ei adolygu'n barhaus.
- Adlewyrchwyd yr ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 mewn 16 o Gynlluniau Gwasanaeth a roddwyd er gwybodaeth ym mhapurau cefndir yr adroddiad.
- Yn unol â'r Calendr Perfformiad Blynyddol, roedd yr Aelodau Etholedig wedi parhau i helpu i lunio'r ffordd yr oedd gweithgarwch ac adroddiadau cysylltiedig â pherfformiad yn cael eu cyflwyno.
- Rhoddwyd diweddariadau ar y gwahanol dargedau gwasanaeth gan y swyddogion perthnasol, gan gynnwys:
 - Gwasanaethau Adeiladau a Thai, a oedd yn cynnwys gwaith ar atal digartrefedd, gweithredu Strategaeth Dai Leol i fynd i'r afael â'r angen presennol ac a ragwelir am dai, cynyddu'r cyflenwad o dai o ansawdd da, hygyrch a fforddiadwy, datblygu a chefnogi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw a materion tai cysylltiedig, ac ati, a hyfforddiant.
 - Y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR), a oedd yn cynnwys datblygu'r Strategaeth Ddigidol newydd a darparu gwasanaethau'n effeithlon, gan gynnwys arolygiadau a gwaith swyddfa gefn, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, h.y. amddiffyn plant rhag sylweddau niweidiol a delio â Masnachwyr Twyllodrus a sgamiau, mynd i'r afael â recriwtio a chadw, drafftio Cynllun Busnes y GRhR ar gyfer 2024-2025 ac adolygu opsiynau darparu gwasanaethau yn y dyfodol yng ngoleuni pwysau ariannol parhaus.
 - Adfywio, a oedd yn cynnwys ymgysylltu â'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol a Chynghorau Tref a Chymuned a chryfhau perthnasau â nhw, datblygu'r cynlluniau creu lleoedd yn y Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth, y cymorth ychwanegol a oedd yn cael ei roi i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'w galluogi i fanteisio i'r eithaf ar gyllid drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chyflawni prosiectau cyfalaf, gweithredu'r Polisi Byw'n Annibynnol, yn ogystal â'r cynnig i ffurfio un Tîm Byw'n Annibynnol.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol eu gwneud yn y cyfarfod:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Payne at Gam Gweithredu 41 y Cynllun Cyflawni Blynyddol ynghylch darparu cartrefi Cyngor newydd yn ardal y Barri, ac at yr angen i'r Cyngor gyflwyno neges gadarnhaol ar y datblygiadau hyn er mwyn gwrthweithio rhywfaint o'r sylw negyddol a gafodd datblygiadau o'r fath yn y cyfryngau cymdeithasol. Mewn ymateb cytunwyd bod angen i'r Cyngor edrych ar wella cyfathrebu ynghylch datblygiadau o'r fath a phwysleisio'r manteision cadarnhaol a ddaeth yn eu sgil, o ran darparu tai cymdeithasol newydd i drigolion lleol a manteision buddsoddiad o'r fath o fewn yr economi

leol fel cynnwys isgontractwyr lleol a oedd yn eu tro yn helpu'r economi leol a chyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal. Roedd hefyd yn bwysig pwysleisio manteision datblygiadau o'r fath wrth helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng tai presennol. Byddai Pennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai yn mynd â'r sylwadau hyn yn ôl at swyddog cyfryngau'r Cyngor er mwyn edrych ar sut y gellid gwella cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Haines at greu lleoedd a'r ymdrechion dro ar ôl tro gan Gyngor Cymuned Sain Tathan i geisio ymgysylltu â Chyngor Bro Morgannwg ar hyn ond nid oedd wedi cael ateb hyd yn hyn. Teimlai'r Cynghorydd, oherwydd nifer y tai posibl a allai fod yn dod i ardal Sain Tathan dan y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, y dylai'r Cyngor ymgysylltu â'r Cyngor Cymuned a gofynnodd i Reolwr Gweithredol Adfywio a allai gysylltu i siarad ag ef. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gweithredol Adfywio, ei fod ef a'i gydweithwyr wedi siarad â Chyngor Cymuned Sain Tathan, gan dynnu sylw at y ffaith mai ef oedd un o arloeswyr cyntaf neu gychwynnol camau cynnar y prosiect mapio cymunedol. Roedd tîm perthnasol y Cyngor wedi cyfarfod ag Aelodau Cyngor Cymuned Sain Tathan ynghylch y broses mapio cymunedol er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer unrhyw ddatblygiad posibl ar greu lleoedd a gwasanaethau ar gyfer Sain Tathan yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw gyllid posibl ar gyfer hyn yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Rheolwr Gweithredol at y llwyddiannau a oedd yn ymwneud â datblygiad greu lleoedd a gwasanaethau cysylltiedig mewn ardaloedd fel y Bont-faen a phwysigrwydd meithrin perthynas gref gydag Aelodau Lleol mewn Cynghorau Tref a Chymuned. Cefnogwyd hyn gan Grŵp Creu Lleoedd mewnol er mwyn dod â'r holl brosiectau perthnasol ynghyd i helpu i ddatblygu cymunedau lleol. Pwysleisiodd y Cynghorydd ei fod ef a'r Cyngor Cymuned Lleol wedi bod yn ceisio gwneud i Gyngor Bro Morgannwg ddeall y gallai Sain Tathan yn y dyfodol agos fod â phoblogaeth llawer uwch nag ardaloedd fel y Bont-faen ond teimlwyd bod y Cyngor yn ymgysylltu'n fwy â Chynghorau Cymuned y Bont-faen a Llanilltud Fawr, ond dim cymaint gyda chymuned Sain Tathan. Esboniodd y Rheolwr Gweithredol fod hyn yn rhannol oherwydd capasiti a chau'r rhaglenni gwledig a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, ond hefyd oherwydd y cyllid penodol ar gyfer greu lleoedd ar gyfer ardaloedd trefi a oedd yn dod gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn gofyn am gynllun greu lleoedd ar gyfer pob tref er mwyn cael mynediad at y cyllid perthnasol ar gyfer prosiectau. Byddai hyn yn cael ei fwydo yn ôl er mwyn tynnu sylw at y rhan goll hon o'r broses greu lleoedd o ran ardaloedd gwledig a'r angen am raglenni datblygu gwledig cryfach. Roedd hyn hefyd oherwydd toriadau mewn rhaglenni gwledig economaidd-gymdeithasol tra bod cyllid ar gyfer ardaloedd trefol wedi parhau. Ychwanegwyd nad oedd angen symiau sylweddol o gyllid o reidrwydd, ond yn hytrach roedd y Cyngor yn ceisio cefnogi'r cymunedau lleol i gefnogi eu hunain i arwain dyfodol eu cymunedau, fel y gwaith a wnaed eisoes yn Sain Tathan ynghylch digwyddiad cyllido lleol a oedd wedi dod â'r gymuned a theuluoedd lleol ynghyd ar y cyd â'r Cyngor i drafod sut y gallai plant lleol ddefnyddio'r manau gwyrdd lleol. Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Haines y byddai'n cysylltu â'r Rheolwr Gweithredol er mwyn trafod hyn ymhellach.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi a chymeradwyo'r gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2024/25, fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad A i'r adroddiad).

(2) Nodi a chymeradwyo mesurau a thargedau perfformiad arfaethedig y gwasanaeth ar gyfer 2024/25, sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor (Atodiad B i'r adroddiad).

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1a2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

863 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2023/24 (CAT) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad Chwarter 3 (Ch3) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr 2023 wrth gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/2024 fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol. Arweiniwyd hyn gan Bennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai.

Oherwydd yr heriau capasiti presennol o fewn y Tîm Perfformiad Corfforaethol, diwygiwyd fformat Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol y chwarter hwn (Ch3) dros dro, er mwyn parhau i roi trosolwg i Aelodau Etholedig o'r cynnydd o ran cyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith pob Pwyllgor Craffu.

Rhoddodd y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad grynodedb o'r cynnydd yn erbyn ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023/24 fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd nifer o sylwadau ac ymholiadau eu gwneud yn y cyfarfod:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Payne at Amcan 2 o ran cynllunio'r gweithlu ac effaith cyfyngiadau presennol y gyllideb ar hyn. Esboniwyd bod cyfyngiadau'r gyllideb yn cynnwys gwasanaethau adeiladau a chyfrif masnachu gweithredwyr y gwasanaethau adeiladau y mae ei incwm yn deillio o wneud gwaith i gleientiaid, yn ogystal â'r sefyllfa ariannol bresennol i'r Awdurdod Lleol, y terfynau ar roi cyflog cystadleuol, yn enwedig mewn sector lle gallai gweithredwyr preifat a phartneriaid tai cymdeithasol roi lefelau uwch o gyflog weithiau. Gwelwyd yr agwedd hon yn benodol ym mhob rhan o'r Cyngor, nid dim ond y Gwasanaethau Adeiladau a Thai. Roedd hyn yn cael sylw gan Swyddogion Adnoddau Dynol a Chyllid yn y Cyngor, ond roedd hyn yn parhau'n heriol oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb bresennol. Yn arbennig o heriol oedd y rolau hynny lle'r oedd sgiliau technegol uwch a oedd yn fwyfwy anodd eu llenwi a welwyd ar draws y Gyfarwyddiaeth Amgylchedd a Thai.

- Ynglŷn â chyfeiriad y Cynghorydd Haines at Amcan 3 ar y cyfyngiadau ar dir sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer tai, gofynnodd am ymarferoldeb defnyddio mwy o safleoedd tir llwyd. Esboniwyd nad oedd llawer o safleoedd o'r fath dan berchnogaeth Cyngor Bro Morgannwg ond parhaodd y Cyngor i edrych ar gyfleoedd ar y cyd â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd a chysylltwyd â pherchnogion tir ac asiantau ynglŷn â safleoedd posibl. Ar hyn o bryd roedd trafodaethau ar nifer o safleoedd posibl y gellid eu defnyddio ar gyfer tai, ond roedd y rhain yn y camau cynnar ac yn gyfrinachol ar hyn o bryd, ond y gobaith oedd cynnwys y rhain yn y Cynllun Gwella Tai yn y dyfodol. Atgoffwyd y Pwyllgor fod y Cyngor hefyd mewn cystadleuaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a datblygwyr tai preifat o ran defnyddio tir ar gyfer tai hefyd.
- Dywedwyd wrth yr Is-gadeirydd, ynghylch Amcan 3, o ran y gostyngiadau termau real yn y Grant Cymorth Tai ac a oedd angen ailedrych ar hyn yng ngoleuni cyllid dilynol gan Lywodraeth Cymru, fod hynny'n wir ac y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn eitem nesaf yr agenda i'w chyflwyno i'r Pwyllgor ar ddiweddariad 2024 ar Gynllun Cyflawni Grant Cymorth Tai 2022-2025.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi canlyniadau perfformiad Chwarter 3 a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 yn unol ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

864 MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

865 DIWEDDARIAD 2024 I GYNLLUN CYFLAWNI GRANT CEFNOGAETH TAI 2022-2025 (CAT) –

(Brys oherwydd yr angen i gwblhau cynllun gwariant blynyddol y Cyngor gyda Llywodraeth Cymru ac i ddod o hyd i arbedion gwerth tua £100,000. Mae gan benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r arbedion oblygiadau cytundebol â phartneriaid darparwyr cymorth y Cyngor a gallai arwain at yr angen i ddiswyddo. Gall oedi penderfyniadau effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni'r arbedion sydd eu hangen)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai, a'i ddiben oedd tynnu sylw at y pwysau ariannol ar y gwasanaethau Grant Cymorth Tai ac i'r Pwyllgor graffu ar yr opsiynau ar gyfer cyflawni arbedion cost angenrheidiol.

Y Rhaglen Grant Cymorth Tai (GCT) oedd y fframwaith polisi a chyllido ar gyfer rhoi cymorth tai i bobl sy'n agored i niwed mewn gwahanol fathau o lety ac ar draws pob deiliadaeth.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dyraniad grant dangosol ar gyfer 2024-25 o £4,791,831.58 y flwyddyn. Er yn sefydlog dros y tair blynedd diwethaf, roedd hyn i bob pwrpas yn doriad termau real o 8.7% dros yr un cyfnod, a oedd â goblygiadau adnoddau uniongyrchol a byddai llai o gyllid GCT yn effeithio ar adrannau yn ystod blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26 ac roedd arbedion cost wedi'u nodi o ganlyniad.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai ei fod wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar iawn bod £13m ychwanegol bellach wedi'i ddyrannu i'r gyllideb GCT a oedd yn cyfateb i gynnydd o tua 7.5% mewn cyllid craidd ar gyfer 2024/25. Yng ngoleuni hyn, nid oedd yr opsiynau na'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad yn ddilys mwyach fel y cyfryw a byddai angen ailedrych arnynt yng ngoleuni'r stori newyddion dda hon o ran cyllid. Yn ogystal, byddai angen cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr union swm terfynol i'w roi mewn cyllid ychwanegol ac ymgorffori hynny mewn adroddiad newydd a chyflwyno'r cynllun gwariant erbyn diwedd mis Mawrth i Lywodraeth Cymru, er oherwydd natur munud olaf y diweddariad hwn, byddai'r Cyngor yn edrych i ymestyn y dyddiad cau yn unol â hynny.

Oherwydd yr uchod, byddai adroddiad newydd yn cael ei roi i'r Cabinet / Craffu yn y dyfodol agos ac felly gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad presennol ar yr adeg hon, yn amodol ar roi diweddariad pellach ac adroddiad diwygiedig yn dilyn y newid mewn amgylchiadau a amlinellwyd uchod. Cafodd hyn ei ystyried wedyn gan y Pwyllgor, a gytunodd i wneud hyn.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Nodi ar yr adeg hon ddiweddariad 2024 i Gynllun Cyflawni Grant Cymorth Tai 2022-2025, yn amodol ar ddarparu diweddariad pellach ac adroddiad diwygiedig yn dilyn y newid mewn amgylchiadau oherwydd y cyllid ychwanegol diweddar a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Oherwydd y newid diweddar mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Cymorth Tai, byddai angen drafftio adroddiad newydd i ystyried yr amgylchiadau newydd ac er mwyn sicrhau bod y Cabinet a/neu'r Pwyllgor Craffu yn ystyried y cynigion diwygiedig hyn, yn ogystal â gallu cyflwyno'r cynllun gwariant cysylltiedig i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2024.